Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru South Wales Fire and Rescue Service

TECHNEGYDD CERBYDAU MODUR

Gradd 9
Cyflog: £32,076 - £33,945 y flwyddyn
37 awr yr wythnos
Parhaol

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru'r swydd wag **barhaol** uchod yn ei Weithdai Fflyd a Pheirianneg a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithredu fflyd o dros 450 o gerbydau math cymysg ynghyd â fflyd o beiriannau trymion mawr ac amrywiol. Mae'r swydd yn golygu gweithio fel rhan o dîm sy'n gwasanaethu, trwsio a chynnal a chadw amrediad eang o gerbydau arbenigol, peiriannau trymion ac offer y Gwasanaethau Tân ac Achub.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi cyflawni prentisiaeth ymrwymedig/fodern gydnabyddedig a pherthnasol ynghyd â meddu ar o leiaf Tystysgrif Sefydliad y Ddinas a'r Urddau Rhan 2 mewn Crefft Cerbydau NEU NVQ Lefel 3 neu gymhwyster cyfartal. Mae profiad ôl-gymhwysol profedig mewn trwsio a chynnal a chadw Cerbydau Nwyddau Mawr, gwaith awto drydanol, hydroleg, a saernïo hefyd yn ofynnol.

Mae'r swydd yn gofyn i chi gymryd rhan mewn system amserlen argyfwng wrth gefn 'y tu allan i oriau gwaith' sy'n gofyn i chi ymateb yn syth a mynychu unrhyw leoliad ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos o fewn neu'r tu allan i ardal gweithredu Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad cofnod troseddol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ac mae system gweithio hyblyg ar waith.

A fyddwch cystal â nodi fod hon yn broses gystadleuol iawn a dim ond y rhai hynny sydd wedi arddangos tystiolaeth lawn yn erbyn pob un o feini prawf hanfodol y fanyleb person bydd yn camu ymlaen i'r Broses Ddethol.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnha,u eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/
Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **15/02/2024 12:00 hanner dydd.**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.